Undeb y Newyddiadurwyr

ffurflen

gais

aelodaeth

UNDEB Y NEWYDDIADURWYR
Headland House, 308-312 Gray's Inn Road, Llundain WC1X 8DP. Ffôn 020 7278 7916
Ffacs 020 7837 8143 E-bost info@nuj.org.uk
Gwefan www.nuj.org.uk

Os gwelwch yn dda, cwblhewch y ffurflen ganlynol (LLYTHRENNAU BREISION), ei phlygu a'i dychwelyd. Nid oes angen stamp.

Eich manylion

Cyfenw _____
Enwau cyntaf
_____
Cyfeiriad cartref
_____
_____
_____
Côd post _____
E-bost _____
Ffôn (gwaith)
_____
Ffôn (gartref) _____
Symudol _____
Dyddiad geni
_____
Rhyw G☐ B☐
Ydych chi wedi bod yn aelod o'r undeb o'r blaen?
Ydw ☐ Nac ydw ☐
Os felly, pryd oeddech chi'n aelod ddiwethaf?
_____

Ydych chi'n perthyn i undeb arall?

_____

Ydw □ Nac Ydw □
Os felly, pa un?

_____

Manylion swydd

Hunanliwtiwr □ Staff □ **Ticiwch flwch os gwelwch yn dda**
Cyflogwr

_____

Cyhoeddiad (os yn berthnasol) _____
Teitl swydd _____
Sector (gweler *beth fydd y gost?*)

_____

Os ydych yn gweithio ar eich liwt eich hun, byddwch gystal â rhoi'r wybodaeth ganlynol (gweler nodyn):

Enillion wythnosol gwaith newyddiadurol ar gyfartaledd

_____

Canran holl incwm a ddaw o waith newyddiadurol

_____

Rhowch fanylion unrhyw waith nad yw'n newyddiadurol

_____

Nodwch a ydych yn awdur, ffotograffydd, etc

_____

Os gwelwch yn dda, rhowch dystiolaeth o waith diweddar (o fewn y chwe mis diwethaf)

Teitlau neu gwmniau y danfonoch waith iddynt	Pryd

Datganiad cyfraniad gostyngol

Cyflog/incwm blynyddol £_____

Os gwelwch yn dda, amgaewch brawf o'ch enillion (e.e. *cyflogeb, cyfrifon blynyddol*)

Cynigydd ac eilydd

Os na ddowch o hyd i aelodau undeb all gynnig ac eilio eich cais, anfonwch y ffurflen beth bynnag. Gallwn ddatrys y broblem honno.

Cynigydd _____
Cangen _____
Arwyddwyd
_____
Dyddiad _____
Eilydd _____
Cangen _____
Arwyddwyd
_____
Dyddiad _____

At ddeunydd y brif swyddfa yn unig

Rhif aelodaeth
_____
Cangen_____
_
Cyfradd
_____
Dyddiad
_____

At ddeunydd y gangen yn unig

Derbyniwyd yr ymgeisydd uchod yn aelod
Cangen
_____
ar_____
_
Arwyddwyd
_____
Dyddiad
_____

Pwysig iawn - gwybodaeth tarddiad ethnig

Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol o ddileu anffafriaeth anghyfreithlon a hybu cydraddoldeb hiliol, mae'r undeb am sefydlu a gweithredu polisïau cyfle

cyfartal ar y cyd â chyflogwyr. Gan ei fod yn undeb llafur, y mae wedi ymrwymo i beidio â dangos anffafriaeth at unrhyw grŵp hiliol wrth roi gwasanaeth i'w aelodau.

Rhaid i'r undeb dderbyn y wybodaeth isod i ategu honiadau yn erbyn cyflogwyr ynghylch cyfleoedd i gael gwaith a hyfforddiant, neu ddiogelwch swydd a dyrchafiad. Bydd y wybodaeth yn helpu'r undeb i sicrhau fod adeiladau, buddion ac adnoddau'r undeb ar gael i bawb. Y mae hyn yn cynnwys yr hawl i ymwneud â gwaith Cyngor Aelodau Duon yr undeb sydd â dyletswyddau fel monitro effaith polisïau'r undeb ar gydraddoldeb hiliol, monitro datblygiad deddfau perthnasol ac ymgyrchu yn erbyn hiliaeth yn y cyfryngau.

Trwy lenwi a dychwelyd y wybodaeth isod, byddwch yn helpu'r undeb i gynnig cyfle cyfartal i bawb i gael gwaith a dyrchafiad. Er mwyn ein helpu i fonitro'r polisi, rhowch wybodaeth am eich tarddiad ethnig os gwelwch yn dda. Cedwir yr holl wybodaeth yn hollol gyfrinachol.

Ticiwch y mannau priodol os gwelwch yn dda.

A: Gwyn

Prydeinig ☐ Gwyddelig ☐ Seisnig ☐ Albanaidd ☐ Cymreig ☐ Cefndir gwyn arall ☐

B: Cymysg

Gwyn a Du Caribïaidd ☐ Gwyn ac Asiaidd ☐ Gwyn a Du Affricanaidd ☐ Cymysg arall ☐

C: Asiaidd, Asiaidd Seisnig, Asiaidd Albanaidd neu Asiaidd Cymreig

Indiaidd ☐ Pacistani ☐ Bangladeshi ☐ Arall ☐

Ch: Du, Du Seisnig, Du Albanaidd, Du Cymreig

Caribïaidd ☐ Affricanaidd ☐ Arall ☐

D: Tseiniaidd, Tseiniaidd Seisnig, Tseiniaidd Albanaidd neu Tseiniaidd Cymreig

Tseiniaidd ☐ Arall ☐

Dd:

Dwyrain Canol/Gogledd Affrica ☐

–

Mae hawl gan aelodau undeb nad ydynt o gefndiroedd gwyn i bleidleisio yn yr etholiad blynyddol ar gyfer sedd y Cyngor Aelodau Duon ar y Gweithgor Prydeinig. Cyngor Aelodau Duon yr Undeb sy'n dosbarthu deunydd ychwanegol am ddigwyddiadau, cynadleddau, cyhoeddiadau, ymgynghoriadau etc. Os ***nad ydych*** am dderbyn y wybodaeth honno, ticiwch y blwch canlynol os gwelwch yn dda.

Datganiad yr ymgeisydd

Cadarnhaf fod y wybodaeth uchod yn gywir, a chytunaf i gadw at reolau a chôd ymarweddiad yr undeb

arwyddwyd_____dyddiad_____

Gorchymyn i'ch banc neu gymdeithas adeiladu

dalu debyd uniongyrchol

DIRECT Debit

Originator's Identification number **940357**

Rhif adnabod y cychwynnydd **940357**

Gall banciau a chymdeithasau adeiladu wrthod talu gorchymyn debyd uniongyrchol gydag ambell fath o gyfrif.

1. Enw a chyfeiriad post llawn eich banc/cymdeithas adeiladu

At sylw'r rheolwr

_____

_____ côd post_____

2. Enw(au) deilydd(ion) y cyfrif

3. Rhif côd y gangen ☐☐ ☐☐ ☐☐

4. Rhif y cyfrif banc/cymdeithas adeiladu ☐☐☐☐☐☐☐☐

5. Cyfeirnod (i'w lenwi gan yr undeb) _____

6. Cyfarwyddyd i'ch banc neu gymdeithas adeiladu

A fyddech gystal â thalu debydau uniongyrchol o'r cyfrif a nodir yn y cyfarwyddyd hwn yn amodol ar y camau diogelu a sicrhau gan y warant debyd uniongyrchol. Deallaf y gall y cyfarwyddyd hwn aros ym meddiant yr undeb ac, os felly, danfonir fy manylion yn electronig i fy manc/ cymdeithas adeiladu.

Llofnod(ion)

_____

Dyddiad

_____

Debyd Uniongyrchol

Gwarant Debyd Uniongyrchol

Cynigir y warant hon gan yr holl fanciau a chymdeithasau adeiladu sy'n rhan o'r Cynllun Debyd Uniongyrchol. Eich banc neu gymdeithas adeiladu sy'n monitro a gwarchod pa mor effeithiol a sicr yw'r cynllun.

Os yw swm yr arian i'w dalu neu'r dyddiadau talu yn newid, bydd yr undeb yn eich hysbysu o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn tynnu arian o'ch cyfrif neu yn ôl yr hyn a drefnwyd ymlaen llaw.

Os yw'r undeb neu eich banc neu gymdeithas adeiladu yn gwneud camgymeriad, mae gennych warant y cewch ad-daliad llawn ar unwaith o'r arian a dalwyd gan eich cangen.

Gallwch ganslo debyd uniongyrchol unrhyw bryd, drwy ysgrifennu llythyr at eich banc neu gymdeithas adeiladu. Anfonwch gopi o'ch llythyr at yr undeb os gwelwch yn dda.

Deg rheswm am ymuno ag Undeb y Newyddiadurwyr.

- Yr un sy'n eich amddiffyn yn y gwaith
- Ymrwymiad i wella cyflog ac amodau gwaith newyddiadurwyr
- Gwasanaeth Cyngor Cyfreithiol am ddim
- Yr undeb ar flaen y gad dros hawliau gwaith
- Cyngor arbenigol ar faterion yn ymwneud â hawlfraint
- Cynrychiolaeth effeithiol ar bob lefel
- Cerdyn Prydeinig y Wasg
- Polisïau cryfion iechyd a diogelwch
- Ymgyrchydd heb ei ail dros ryddid y wasg a'r darlledwyr
- Hyfforddwr amlwg yn y byd newyddiaduraeth

Sut y dylwn i dalu?

Awgrymwn y dylech dalu â debyd uniongyrchol drwy gwblhau'r ffurflen drosodd. Efallai y bydd angen peth amser i'ch banc sefydlu'r debyd uniongyrchol, felly dylid amgáu taliad ar gyfer cyfraniad y mis cyntaf gyda'ch cais. Bydd y taliadau wedi hynny yn cael eu cymryd gan y debyd uniongyrchol.
Fel arall, gallwch dalu â siec neu gerdyn debyd/credyd, ond rhaid cynnwys cyfraniad y chwarter cyntaf o leiaf os gwneir hynny.
Awdurdodiad cerdyn debyd/credyd
Rhif cerdyn _____ Terfyniad_____
Llofnod_____ Dyddiad_____

Beth yw'r cam nesaf?

Cydnabyddir eich cais o fewn 10 diwrnod wedi ei dderbyn. Wedyn anfonir y cais at eich cangen leol. Ar ôl cael eich ethol, cewch ffurflen gais am Gerdyn Prydeinig y Wasg a manylion llawn buddion a rheolau'r undeb.

Beth fydd y gost?

Mae'n dibynnu ar y sector yr ydych yn gweithio ynddo a'r hyn yr ydych yn ei ennill. Rhestrir y tair graddfa isod. Dewiswch y sector sy'n disgrifio eich gwaith orau.
Nid oes rhaid i chi dalu mwy nag 1% o'ch hincwm trethadwy crynswth i'r undeb neu 0.5 os yw eich hincwm yn llai na £13,600 y flwyddyn, (neu o leiaf un ran o dair o raddfa Gradd 1).

Gradd 1: £13.49 y mis
Papurau newydd taleithiol, llyfrau, cylchgronau y tu allan i Lundain, radio annibynnol lleol, a'r rhai sy'n gweithio y tu allan i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon.

Gradd 2: £17.09 y mis
Cysylltiadau'r wasg a chysylltiadau cyhoeddus, cylchgronau, gwaith ar eich liwt eich hun ac ysgrifennwyr copi hysbysebion.

Gradd 3: £23.44 y mis
Papurau Prydeinig, asiantaethau newyddion a darlledu. Os ydych yn credu eich bod yn gymwys i dalu cyfraniad gostyngol, byddwch gystal â llenwi'r datganiad ar y ffurflen hon ac amgáu tystiolaeth o'ch hincwm.

Pwy ddylai ymuno â'r undeb?

Newyddiadurwyr yn cynnwys ffotograffwyr ac artistiaid creadigol sy'n gweithio'n olygyddol ar bapurau newydd, cylchgronau a llyfrau neu ym myd darlledu, cysylltiadau cyhoeddus a gwybodaeth, a'r cyfryngau electronig; neu ffotograffwyr hysbysebion a ffasiwn, ysgrifenwyr copi ym maes hysbysebu a golygwyr systemau cyfrifiadurol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â chwblhau'r ffurflen hon neu eich cymhwyster i ymaelodi, byddwch gystal â chysylltu â'r adran aelodaeth ar 020 72787916 neu ebostiwch info@nuj.org.uk gan osod 'Membership Enquiry' ym maes pwnc eich ebost.

GYDA'N GILYDD GALLWN WELLA EIN HAMODAU GWAITH

Mae'r ffurflen hon ar gael mewn print mawr ac ar ffurfiau eraill. Cysylltwch â'n hadran aelodaeth am fanylion os gwelwch yn dda. Ffôn 020 7278 7916

Hysbysiad Gwarchod Data

Rhaid i'r undeb gasglu a chadw data i gyflawni ei ddyletswyddau undebol ac ateb gofynion statudol. Bydd holl wybodaeth yr undeb am aelod yn cael ei thrin yn gyfrinachol, gan ddefnyddio mesurau diogelwch priodol. Drwy ymuno â'r undeb mae aelodau'n cytuno fod manylion personol yn cael eu prosesu.

Mae'r undeb yn cadw eich manylion personol i hwyluso cyfathrebu ag aelodau; cynnig a darparu buddion, gwasanaethau, nwyddau a chynnyrch i aelodau a'r rhai

sy’n ddibynnol arnynt; trefnu gweithgareddau sy’n ymwneud â thrafodaethau, cynrychiolaeth, democratiaeth fewnol yr undeb; ac/neu lunio proffiliau ystadegol yn ymwneud ag aelodaeth o undebau llafur, hil a rhyw.

Dim ond at ddibenion penodol yn ymwneud ag undebau llafur y bydd yr undeb yn rhoi gwybodaeth i drydydd person, e.e. gweithwyr a swyddogion yr undeb, canghennau a chapeli, yr archwiliwr annibynnol a benodwyd ar gyfer etholiadau neu bleidleisiau ar weithredu diwydiannol, ymgeiswyr yn etholiadau’r undeb, ac i ddosbarthu llenyddiaeth a chyhoeddiadau’r undeb.

Rhoddir y wybodaeth o dan amodau diogel a chyfrinachol, a phrosesir y wybodaeth o dan ein cyfarwyddiadau llym. Mae gan bob aelod yr hawl i ofyn am gopi o’r wybodaeth a gedwir gan yr undeb ac i ofyn am gywiro unrhyw wallau . Codir tâl o £10 o flaen llaw.

Gellir gwneud cais am gopi o Bolisi Gwarchod Data yr undeb. Rhoddwyd copïau eisoes i ganghennau a chapeli.

Er mwyn dychwelyd y ffurflen hon, gwlychwch y stribedyn gludiog hwn (y top a’r gwaelod). Rhowch unrhyw sieciau ar dud. 3 (cynigydd ac eilydd) a phlygwch dud. 6 ar ben tud.5 a pharhewch i’w phlygu drosodd tan dud. 4 etc. Os ydych yn hunanliwtiwr, anfonwch doriadau o’ch gwaith mewn amlen wahanol at Undeb y Newyddiadurwyr Rhadbost WC1X Llundain WC1X 82Y